



# Department for Environment, Food & Rural Affairs

Ground Floor, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF  
T: 03459 335577 helpline@defra.gov.uk  
[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

Annwyl Ymgynghorai,

## **Ymgynghoriad ynghylch Diwygio Esemtiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016**

Rwy'n ysgrifennu i wahodd sylwadau ynghylch Diwygio Esemtiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Gallwch ddod o hyd i'r dogfennau canlynol ar GOV.UK: [Exemptions Reform to the Environmental Permitting \(England and Wales\) Regulations 2016 - Defra - Citizen Space](#)

- Diwygio Esemtiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
  - dogfen ymgynghori (fersiwn Cymraeg)
- Diwygio Esemtiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
  - dogfen ymgynghori (fersiwn Saesneg)

Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os hoffech gael copi o'r ymgynghoriad yma, cysylltwch ag [EnvRegs@defra.gov.uk](mailto:EnvRegs@defra.gov.uk)

## **Ymatebion**

I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur ymgynghori sydd ar gael drwy [Citizen Space](#) (mae Citizen Space yn offeryn ymgynghori ar-lein).

Os oes arnoch chi angen copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni yn [EnvRegs@defra.gov.uk](mailto:EnvRegs@defra.gov.uk).

Dylai'r ymatebion ddod i law erbyn **3 Mehefin 2025**.

## **Meini prawf yr ymgynghoriad**

Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal yn unol ag [Egwyddorion ymgynghori: canllawiau - GOV.UK](#).

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb wrth ymateb o'r bobl a'r sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli a phan fo'n berthnasol pwy arall y maen nhw wedi ymgynghori â nhw wrth ddod i'w casgliadau.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad yma, gan gynnwys data personol, yn unol â'r ddeddfwriaeth ar weld gwybodaeth. Rydyn ni'n parchu'ch preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau am weld gwybodaeth. Dim ond pan fo angen hynny er mwyn bodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth.

## **Defnyddio a rhannu'ch gwybodaeth**

Mae sut rydyn ni'n defnyddio'ch data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymarfer ymgynghori a'r alwad am dystiolaeth sydd i'w weld yma [ymarferion ymgynghori a galwadau am dystiolaeth gan Defra: hysbysiad preifatrwydd - GOV.UK](#).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch neges ebost at: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

Diolch ichi am eich help yn y mater yma. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni fel uchod.

Yn gywir

Tîm Rheoliadau Amgylcheddol  
Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd Amgylcheddol

## **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

Mail point A, Ground Floor, Seacole Building, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF